Taflen Dwyllo

Help your child to learn with Mike Gershon

# Cyflwyniad: Helpu Eich Plentyn i Ddysgu

## Negeseuon Allweddol

Cofiwch y **rheolau aur**:

1. **Chi yw ased mwyaf eich plentyn.**
2. **Rhowch dri pheth i'ch plentyn: Cariad, Amser a Chanmoliaeth.**
3. **Gwnewch bedwar peth gyda'ch plentyn: Siarad, Darllen, Chwarae a Gwrando.**

Rydych yn adnabod eich plentyn yn well na neb. Felly peidiwch â bod ofn addasu neu ddiwygio’r holl syniadau a gyflwynwyd yn y cwrs fel eu bod yn addas ar gyfer eich anghenion chi a’ch plentyn. Edrychwch ar y cwrs fel man cychwyn. Un yr ydych yn teimlo’n rhydd i’w deilwra ac addasu fel ei fod yn gweithio i chi.

A pheidiwch ag anghofio, mae dysgu yn hwyl. Mae’n gyffrous. Mae’n ysgogol. Mae’n heriol a gwerth chweil. Mae’n ymwneud â gwthio ffiniau’r hyn y gallwn ei wneud, yr hyn rydym yn ei wybod a’r hyn rydym yn ei ddeall. Mae’n ymwneud â datblygu a thyfu. Mae’n ymwneud â gwneud synnwyr o’r byd ac ohonom ein hunain. Dyna beth ydych chi’n helpu’ch plentyn i’w wneud, bob tro yr ewch ati i’w helpu i ddysgu.

## Strategaethau, Gweithgareddau a Thechnegau

| | |
|---|---|
| **i. Siarad Gyda'n Gilydd** | *Ewch ati i gael trafodaethau cronnol ac archwiliol gyda’ch plentyn.* |
| **ii. Chwilio am Atebion** | *Helpwch eich plentyn i ddod o hyd i atebion i gwestiynau ar ei ben ei hun.* |
| **iii. Ymarfer Gweithredol** | *Canolbwyntiwch ar wneud pethau gweithredol ac osgoi pethau goddefol.* |
| **iv. Mae Camgymeriadau yn Iawn!** | *Helpwch eich plentyn i weld camgymeriadau mewn ffordd gadarnhaol.* |
| **v. Penagored** | *Defnyddiwch gwestiynau penagored i ysgogi trafodaeth a sgwrs.* |
| **vi. Canmol Ymdrech** | *Hoeliwch sylw eich plentyn ar y berthynas rhwng ymdrech a llwyddiant.* |

© Mike Gershon 2020. Cedwir Pob Hawl. Cyhoeddwyd o dan drwydded gan Gershon Learning Limited.